

Adroddiad Blynyddol
Gwent
2004–2005

CPS

Cyflwyniad gan Brif Erlynydd y Goron

Rwy'n falch o gyflwyno chweched Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Gwent. Mae'r Rhanbarth yn cwmpasu pum bwrdeistref sirol, sef Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy.

Cefais fy mhenodi'n Brif Erlynydd y Goron Gwent ym mis Ionawr 2005. Rwy'n atebol yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Ken Macdonald QC, am erlyn pob achos yn effeithiol yn y Rhanbarth yn dilyn ymchwiliadau gan Heddlu Gwent. Mae'r Cyfarwyddwr yn cael ei oruchwylio gan y Twrnai Cyffredinol sy'n atebol i'r Senedd am y Gwasanaeth. Fy ngwaith i yw sicrhau bod achosion yn cael eu herlyn yn gadarn, yn deg ac effeithiol ac yn unol â'r *Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron*. Mae'r *Côd* yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau i erlyn fel bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn gyson, eglur ac atebol. Ni fyddwn yn penderfynu erlyn oni bai fod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn ac y bodlonir y prawf cyntaf hwn bod yn rhaid erlyn er budd y cyhoedd. Rwy'n canolbwyntio ar erlyn a phrosesau cyfreithiol, tra bo'r Rheolwr Busnes Rhanbarthol yn rheoli prosesau'r swyddfa a'r gwaith gweinyddol. Hefyd, rwy'n aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, sef fforwm sy'n dwyn ynghyd yr holl brif swyddogion o'r asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, gan sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni nodau'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol.

Nod y gyfundrefn cyfiawnder troseddol yw gostwng troseddu ac ofn troseddu a'r gost gymdeithasol ac economaidd, gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithlon a hyrwyddo hyder yn rheolaeth y gyfraith.



Rhoddir targedau heriol i holl Ranbarthau'r CPS i fesur llwyddiant yn erbyn nod y gyfundrefn cyfiawnder troseddol ac mae'n dda gen i adrodd fod y Rhanbarth wedi cyrraedd y targedau dan sylw ac, mewn rhai agweddau, wedi mynd y tu hwnt iddynt.

Gweledigaeth y CPS

Gweledigaeth glir y CPS yw bod yn awdurdod erlyn annibynnol, o safon fyd-eang, wrth galon y gyfundrefn cyfiawnder troseddol, yn darparu gwasanaeth cyhoeddus gwerthfawr sy'n bodloni anghenion dioddefwyr a chymunedau, gan wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl leol a helpu i adeiladu cymdeithas fwy gweddus a diogel.

Isod, mae enghreifftiau o'r ffordd rydym yn gwneud hyn:

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) yn cynnwys prif swyddogion o'r heddlu, y CPS, Profiannaeth, a'r Gwasanaeth Llys. Ei brif gyfrifoldeb yw sicrhau y cyflawnir y targedau cytundeb gwasanaeth cyhoeddus a osodir gan y Llywodraeth. Yn eu plith mae cynyddu nifer y troseddau a ddaw gerbron llys, h.y. cael euogfarn neu roi rhybudd troseddol, gostwng nifer y treialon aneffeithiol a gwella hyder y cyhoedd yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Mae'r Bwrdd wedi cefnogi mentrau lleol i wella'r broses cyfiawnder

troseddol, er enghraifft y Cynllun Cyhuddo Cysgodol a'r Prosiect Trais yn y Cartref (gweler isod) ac mae'r holl asiantaethau wedi cydweithio i wella perfformiad.

Y Tîm Erlyn

Cyhuddo

Adroddwyd y llynedd am y gwaith a wnaed i weithredu'r Cynllun Cyhuddo Cysgodol i gyflwyno'r newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mae'r Ddeddf honno yn newid y polisi cyfiawnder troseddol yn sylfaenol, trwy roi'r cyfrifoldeb i'r CPS benderfynu a ddylid cyhuddo ai peidio ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf, ar ôl i'r heddlu ymchwilio i'r mater.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, bu'r CPS yn gweithio'n agos â'r heddlu i ddatblygu'r Cynllun Cyhuddo Cysgodol yn barod ar gyfer gweithredu'r cynllun statudol llawn erbyn mis Rhagfyr 2005. Mae hyn wedi golygu buddsoddi rhagor o adnoddau, er enghraifft gosod cyfreithyddion arbenigol cyn cyhuddo (erlynwyr ar ddyletswydd) mewn dwy ganolfan gyhuddo i roi cyfarwyddyd a chyngor i'r heddlu ynghylch cyhuddo'n fuan. Mae gan y CPS rôl ganolog o ran sicrhau y cyhuddir y diffynnydd cywir o gyflawni'r trosedd cywir, na ddylid bwrw ymlaen ag achosion gwan (yn dilyn ymchwiliad llawn), rhoi cyfarwyddyd i'r heddlu i gryfhau'r dystiolaeth os na chwblhawyd yr ymchwiliad, a sicrhau bod achosion â thystiolaeth gref yn cael eu herlyn yn effeithlon ac effeithiol trwy broses y llys.

Adennill Elw Troseddau

Mae CPS Gwent wedi parhau i weithio'n agos â'r heddlu i fanteisio i'r eithaf ar y pwerau a gyflwynwyd dan Ddeddf Elw Troseddau 2002 (PoCA) er mwyn sicrhau bod asedau a gafwyd trwy weithgarwch troseddol yn cael eu hadennill oddi ar y troseddwyr. Yn 2004/2005 gwnaeth CPS Gwent geisiadau llwyddiannus am 49 gorchymyn atafaelu gyda chyfanswm gwerth o £422,671.

Yn un o'r achosion (Ymgyrch Verona) bu cyfreithydd arbenigol y CPS yn gweithio'n agos iawn â'r heddlu i baratoi erlyniad yn dilyn ymchwiliad naw mis i gynllwyn i gyflenwi cyffuriau. Cafodd 13 diffynnydd eu barnu'n euog o gyflawni troseddau'n gysylltiedig â'r cynllwyn ac, yn ogystal â dedfrydau o garchar, fe bennodd y llys orchmynion atafaelu am gyfanswm o £209,000.

Sefydlwyd cronfa ddata amlasiantaethol ar gyfer adennill asedau o fewn CPS Gwent er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i olrhain a chynnal perfformiad o safon uchel fel hyn.

Technoleg Gwybodaeth

Mae CPS Gwent wedi parhau â'i agenda moderneiddio trwy barhau i ddatblygu system rheoli achosion electronig (COMPASS). Erbyn hyn mae staff y CPS yn gallu cofnodi adolygiadau i achosion yn electronig a throsglwyddo gwybodaeth yn gyflymach i ddioddefwyr a thystion ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Ar hyn o bryd mae CPS Gwent yn gweithio gyda Llys y Goron i ddechrau cyfnewid gwybodaeth am wrandawiadau trwy dechnoleg y rhyngrwyd. Bydd y gwasanaeth hwn yn rhoi'r rhestrau diweddaraf a gwybodaeth am ganlyniadau i'r CPS ac i ddioddefwyr a thystion yn Llys y Goron. Mae gwaith ar y gweill hefyd i gyflwyno system perfformiad cyfrifiadurol (PTPM) fel y gall y CPS a'r heddlu ar y cyd fonitro a gwella'r achosion sy'n cael eu herlyn. Yn ein Hadroddiad Blynyddol nesaf bydd y manylion diweddaraf am yr agenda moderneiddio.

Dioddefwyr a Thystion

Y llynedd adroddwyd bod CPS Gwent wedi'i ddewis yn un o bum safle arbrofol drwy Brydain i roi prawf ar Brosiect Dim Tyst, Dim Cyfiawnder. Roedd y fenter yn golygu cyflwyno gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmer i ddioddefwyr a thystion er mwyn gwella eu profiad o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Yng Ngwent mae dwy Uned Gofal Tystion, un yn delio'n benodol â'r achosion hynny sy'n symud ymlaen i Lys y Goron a'r llall ar gyfer achosion sy'n symud ymlaen i'r Llys Ynadon. Yn y ddwy Uned mae staff penodol, ymroddedig yn gweithio gyda thystion



a dioddefwyr i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau sy'n codi, fel trafnidiaeth, iaith, anableddau neu bryderon penodol fel bygythiadau. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn gyfrifol am sicrhau y rhoddir atebion cyflym i ymholiadau gan ddioddefwyr a thystion, gan gyd-drefnu unrhyw gefnogaeth benodol sydd ei hangen ar gyfer eu hanghenion, a rhoi gwybod sut mae'r achos yn datblygu.

Bu'r cynllun yn llwyddiant. Cafwyd llawer llai o achosion yn methu parhau ar ddiwrnod y treial oherwydd problemau gyda thystion. Bu gostyngiad yng nghyfradd y treialon aneffeithiol yng Ngwent rhwng Ebrill a Gorffennaf 2004, er enghraifft, i lawr i 11.8% o gymharu ag 17.3% ledled Cymru a Lloegr. Yng Ngwent, ni chafwyd yr un achos o dreial aneffeithiol yn ystod y cyfnod hwn o ganlyniad i broblemau gyda thystion neu'r dioddefwr/tyst yn methu mynychu'r llys.

Cyhoeddwyd gwerthusiad o Brosiect Dim Tyst Dim Cyfiawnder ym mis Hydref 2004 a gwelwyd bod y cynllun wedi arwain at lawer gwell gwybodaeth a gofal am dystion, trwy ganolbwyntio ar y cwsmer, mwy o dystion yn mynychu'r llys, gwell canlyniadau adeg treialon a thystion yn fwy bodlon gyda'r Unedau Gofal Tystion (sy'n cael eu staffio ar y cyd gan yr heddlu a'r CPS) a'r CPS. Mae Gwent yn falch o fod yn rhan o'r cynllun arbrofol a arweiniodd at gyflwyno'r rhaglen ledled Cymru a Lloegr. Eleni rydym yn adeiladu ar y llwyddiant trwy gyfuno'r ddwy Uned Gofal Tystion er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion cenedlaethol sylfaenol ar gyfer arferion da wrth roi gofal i ddioddefwyr a thystion. Byddwn yn adrodd am y rhain yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

Trais yn y Cartref

Mae CPS Gwent wedi neilltuo adnoddau ychwanegol er mwyn ymgodymu â phroblem gynyddol trais yn y cartref. Mae trais yn y cartref yn gyfrifol am 16% o'r holl droseddau treisiol yng Nghymru a Lloegr. Mae angen cefnogaeth ar ddioddefwyr trais yn y cartref drwy gydol y broses erlyn fel na fyddant yn ofni rhoi tystiolaeth yn y llys, a sicrhau hefyd fod y rhai sy'n cyflawni trais yn y cartref yn dod o flaen eu gwell. Y llynedd adroddwyd bod CPS Gwent wedi'i ddewis i roi prawf ar gynllun i sefydlu gwell ffyrdd o erlyn troseddau trais yn y cartref yn effeithiol.



Cynhaliwyd y cynllun arbrofol yn ardal Caerffili yng Ngwent. Sefydlwyd fforwm amlasiantaethol a oedd yn cynnwys y CPS, yr Heddlu, Profiannaeth, Pwyllgor y Llysoedd Ynadon, Cymorth i Ddioddefwyr, Gwasanaeth i Ddioddefwyr, y Gwasanaeth Iechyd, Cyngor Bwrdeistref Caerffili, Cymorth i Ferched, Black and Asian Women's Step Out, Uned Ddiogelwch Menywod Caerdydd a Fforwm Cymuned a Thrais yn y Cartref.

Roedd y cynllun arbrofol yng Nghaerffili yn cynnwys cael tîm arbenigol o gynghorwyr lleyg ac annibynnol ym maes trais yn y cartref, swyddog penodol yn yr heddlu a chyfreithydd arbenigol o'r CPS yn darparu ymateb ar y cyd ar ddechrau achosion ar lwybr carlam trwy'r llysoedd.

Bu Prosiect Caerffili yn llwyddiant ysgubol. Yn ystod cyfnod y cynllun arbrofol (Ionawr 2004 i Ragfyr 2004) bu cynnydd yn nifer yr achosion o drais yn y cartref a ddaeth i sylw'r heddlu, gostyngiad yn nifer yr achosion a gollwyd cyn y treial, cynnydd yn nifer y troseddau a ddygwyd gerbron llys, ac roedd y gefnogaeth a gynigiwyd gan yr adfocad lleyg wedi cael effaith gadarnhaol o ran bod tystion yn teimlo'n ddiogel a hyderus gyda'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol.

Dwynwyd mwy o droseddwyr trais yn y cartref gerbron llys o ran bod canran y dioddefwyr a oedd yn tynnu'n ôl o achosion wedi gostwng o 53% i 27%, pledion euog gan ddiffynyddion wedi cynyddu o 21% i 27%, gyda hyd yn oed mwy yn pledio'n euog yn ddiweddarach wrth i'r diffynnydd sylweddoli y byddai'r achos yn parhau ac y byddai'r dioddefydd yn rhoi tystiolaeth. Cododd pledion euog hwyr mewn achosion o'r fath o 31% i 35%.

Bu gwelliant amlwg hefyd yn nifer y diffynyddion a gafwyd yn euog yn dilyn treial, o 8% i 19%. Cafodd achosion eu prosesu trwy'r llys yn fwy effeithlon hefyd gan ostwng yr amser cyffredinol i ddelio ag achosion o'r fath yn y llys.

Mae canlyniadau cadarnhaol y fenter hon yn tanlinellu ein hymrwymiad i ddod â throseddwyr trais yn y cartref o flaen eu gwell. Roedd y prosiect yn dwyn ynghyd nifer helaeth o sefydliadau cyfiawnder cyhoeddus a gwirfoddol a bellach mae yna gynlluniau ar y gweill i roi cefnogaeth debyg i ddioddefwyr ledled Gwent.

Gweithio mewn Partneriaeth gydag Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol Eraill ac Ymwneud â'r Gymuned

Mae CPS Gwent wedi parhau i chwarae rhan ganolog yn dylanwadu ar bolisi cyfiawnder troseddol lleol trwy ei waith ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth i ymateb i bryderon y gymuned er mwyn gwella'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Cafodd prosiect arbrofol trais yn y cartref (Prosiect SAFF) ei gefnogi a'i ariannu gan CPS Gwent a'r LCJB, ac fe gyrhaeddodd y rhestr fer derfynol yng nghategori "partneriaeth y flwyddyn" (yr enghraifft orau o feithrin gweithio mewn partneriaeth ar draws y gyfundrefn cyfiawnder troseddol) yng Ngwobrau Cyfiawnder 2004 a noddir gan y Swyddfa Gartref. Mae CPS Gwent hefyd wedi parhau i adeiladu ar ei berthynas gref â Chyngor Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd. Trwy fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd cymunedol mae CPS Gwent wedi dod i ddeall mwy am anghenion grwpiau cymunedol. Mae CPS Gwent wedi ymrwymo i estyn allan i'r gymuned ac eleni rydym wedi cymryd rhan mewn Diwrnodau Agored y Llys a'r Heddlu, cystadleuaeth adfocatiaeth ysgolion ble bydd disgyblion yn ysgolion Gwent yn cynnal treialon ffug mewn llysoedd gerbron ynadon go iawn, cymryd rhan yn "Wythnos y Tu Mewn i Gyfiawnder" er mwyn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o swyddogaethau a chyfrifoldebau asiantaethau cyfiawnder troseddol, yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd, cefnogi dathliadau mis hanes pobl dduon a chysylltu'n uniongyrchol ag aelodau'r cyhoedd. Ar hyn o bryd mae CPS Gwent yn trefnu digwyddiadau cymunedol amlasiantaethol i gysylltu â'r gymuned mewn meysydd sy'n effeithio ar fywyd cymunedol. Byddwn yn adrodd am y rhain yn yr Adroddiad Blynyddol nesaf.

GWENT BWRDD CYFIAWNDER TROSEDDOL CJS
System cyfiawnder troseddol: gweithio gyda'n gilydd er mwyn y cyhoedd

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddau Casineb

Mater hynod ddifrifol yng ngolwg CPS Gwent yw unrhyw droseddau a gyflawnir yn erbyn dioddefwyr sy'n targedu eu crefydd, hil neu gredoau. Mae CPS Gwent wedi penodi cyfreithyddion arbenigol i ddelio ag erlyn troseddau casineb yn unol â pholisi'r CPS. Edrychir ar yr achosion hyn a'u monitro yn ofalus, gan rannu'r wybodaeth gydag asiantaethau priodol.

Penodwyd erlynwyr arbenigol hefyd i erlyn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau anhrefn lefel isel. Er mis Ionawr 2005 mae'r CPS wedi gweithio'n llawer agosach gyda phartneriaethau cymunedol lleol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn benodol, gwnaed cais am CRASBO, h.y. gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ôl i ddiffynnydd gael ei ddyfarnu'n euog o gyflawni trosedd. Hefyd bydd yr arbenigwyr yn cefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gyflwyno a gorfodi unrhyw orchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cael eu torri. Mae'r bartneriaeth wedi gweithio'n dda ac, er mis Rhagfyr 2004 gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y CRASBO y gwnaeth y CPS gais amdanynt (ac a ganiatawyd gan y llysoedd) yn dilyn euogfarniad.

Y Ffordd Ymlaen

Mae gan CPS Gwent ran ganolog i'w chwarae o fewn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Mae gennym ymrwymiad ac ymroddiad ysgubol ein holl aelodau staff i adeiladu ar ein llwyddiannau, gwella'r broses erlyn, parhau i erlyn yn effeithiol a gosod dioddefwyr a thystion yn ganolog yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol. Mae CPS Gwent yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn parhau i wneud gwir wahaniaeth i fywydau yn y gymuned gan gyflwyno gwasanaeth sy'n ennyn hyder y gymuned.

Madhu Rai
Prif Erlynydd y Goron.

Perfformiad mewn Llysoedd Ynadon

Mae pob erlyniad yn cychwyn yn y Llysoedd Ynadon. Mae'r troseddau hyn yn amrywio o faterion moduro bach i ymosod a dwyn. Fel arfer bydd yr achosion mwy difrifol yn symud ymlaen i Lys y Goron.

Siart 1 Baich achosion (derbyn a chwblhau)



Siart 2 Categorïau Achosion



Siart 3 Canlyniadau Achosion



Mae **Siart 1** yn dangos nifer y diffynyddion y derbyniodd y Rhanbarth eu hachosion gan yr heddlu a nifer yr achosion a gwblhawyd ym mhob un o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r baich achosion yn dibynnu ar nifer yr achosion a anfonir atom gan yr heddlu. Mae sawl ffactor yn effeithio ar hyn, er enghraifft lefel y bobl sy'n cael eu harestio a nifer y bobl sy'n derbyn rhybudd gan yr heddlu. Mae nifer yr achosion a dderbyniodd Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Ngwent dros y flwyddyn ddiwethaf yn parhau'n debyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae nifer yr achosion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn dangos i'r achosion symud trwy'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn brydlon. Un o amcanion pob partner cyfiawnder troseddol yw sicrhau bod achosion yn symud trwy'r gyfundrefn gyda chyn lleied o oedi â phosib, gan gyfrannu at drin dioddefwyr, tystion a diffynyddion yn deg.

Mae **Siart 2** yn dangos gwahanol fathau o waith y Rhanbarth dros y ddwy flynedd diwethaf. Sef:

Crynodeb – achosion na ellir ond eu rhoi ar brawf mewn Llysoedd Ynadon, er enghraifft troseddau moduro fel goryrru a gyrru diofal.

Ditiol/Neillffordd – Rhaid i droseddau ditiadwy'n unig (megis lladrad a llofruddiaeth) gael eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron, ond gyda throseddau neillffordd (megis dwyn) fe ellir eu rhoi ar brawf un ai mewn Llysoedd Ynadon neu yn Llys y Goron.

Cyngor – achosion ble bydd yr heddlu yn gofyn i'r CPS a oes digon o dystiolaeth i gyhuddo diffynnydd. Yn ystod y flwyddyn hon sefydlodd CPS Gwent y Cynllun Cysgodol Cyngor Cyn Cyhuddo. Rhaid dwyn ambell gyngor gerbron erlynwyr ar ddyletswydd cyn i unrhyw berson gael ei gyhuddo o gyflawni trosedd. Bu cynnydd amlwg yn ein ffeiliau cyngor yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Achosion Eraill – materion annhroseddol gan gynnwys materion gwahardd rhag gyrru.

Mae **Siart 3** yn dangos beth ddigwyddodd i'r achosion a wrandawyd mewn Llysoedd Ynadon, heb gynnwys y rhai a derfynwyd neu a draddodwyd i Lys y Goron. Mae'n dda cael dweud bod y gyfradd euogfarnu ar gyfer troseddau a erlynir mewn Llysoedd Ynadon yn parhau'n uchel.

Perfformiad yn Llys y Goron

Dim ond yn Llys y Goron y gellir rhoi rhai achosion ar brawf. Bydd achosion eraill yn mynd i Lys y Goron un ai oherwydd bod y diffynnydd yn dewis cael ei roi ar brawf yno neu oherwydd bod yr ynadon yn penderfynu bod yr achosion yn ddigon difrifol i warantu treial yn Llys y Goron. Os bydd diffynnydd yn pledio'n ddieuog, bydd yr achos yn cael ei roi ar brawf gerbron barnwr a rheithgor.

Siart 4 Baich achosion (derbyn a chwblhau)



Mae **Siart 4** yn dangos nifer y diffynyddion a ddaeth gerbron Llys y Goron a nifer yr achosion yr ymdriniwyd â nhw yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Gellir gweld bod nifer yr achosion a draddodwyd i Lys y Goron eleni yn parhau'n debyg i'r flwyddyn flaenorol. Eto, mae'r niferoedd yn parhau'n uchel gan ddangos bod materion yn cael eu trin heb oedi gormodol.

Siart 5 Categorïau Achosion



Mae **Siart 5** yn dangos categorïau'r achosion yr ymdriniwyd â nhw yn Llys y Goron. Sef:

Traddodi i sefyll prawf – er bod achosion ditiol yn unig bellach yn cael eu "hanfon am dreial" yn Llys y Goron yn hytrach na'u traddodi, maent bellach wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Mae nifer gynyddol o achosion yn Llys y Goron mor ddifrifol fel na ellir ond eu treialu trwy dditiad yn y Llys hwnnw. Yn aml, bydd yr achosion hyn yn hynod sensitif a chymhleth, gan alw am baratoi manwl. Bydd staff Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio'n agos â phartneriaid yn yr heddlu er mwyn sicrhau bod materion yn cael eu trin yn drylwyr ac amserol. Yr achosion eraill sy'n cael eu traddodi ar gyfer treial yw'r rhai sy'n "neillffordd" ble mae'r diffynnydd wedi dewis treial yn Llys y Goron neu fod yr ynadon wedi siarsio bod hyn yn digwydd.

Apeliadau – gall diffynyddion a gaiff eu rhoi ar brawf mewn Llysoedd Ynadon wneud apêl i Lys y Goron yn erbyn eu heuogfarniad a/neu eu dedfryd.

Traddodi i ddedfrydu – bydd rhai diffynyddion a gafodd eu rhoi ar brawf a'u heuogfarnu mewn Llysoedd Ynadon yn cael eu traddodi i'w dedfrydu yn Llys y Goron os bydd yr ynadon yn penderfynu bod angen cosb lymach na'r hyn y mae ganddynt rym i'w orchymyn.

Siart 6 Canlyniadau Achosion



Mae **Siart 6** yn dangos penderfyniadau mewn achosion a wrandawyd yn Llys y Goron heb gynnwys yr achosion hynny a derfynwyd. Eto, mae'n dda nodi'r gyfradd euogfarnu uchel ar gyfer troseddau y bu Llys y Goron yn ymdrin â nhw.

CPS Gwent

Madhu Rai, Prif Erlynydd y Goron
Chartist Tower, Upper Dock Street, Casnewydd, Gwent NP20 1DW
Ffôn: 01633 261100
Helen Phillips, Rheolwr Busnes y Rhanbarth
Chartist Tower, Upper Dock Street, Casnewydd, Gwent NP20 1DW
Ffôn: 01633 261100

www.cps.gov.uk

Mae'r CPS yn recriwtio ar lein erbyn hyn

Cynhyrchwyd gan y Gangen Cyfathrebu
Pencadlys y CPS, 50, Ludgate Hill
Llundain EC4M 7EX
020 7796 8442
Argraffwyd gan Blackburns of Bolton Ltd
01204 532121